

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro



COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Mawrth 25 Mehefin 2019 am 10.00am
Ystafell Bwyllgor 1, Neuadd y Sir

Yn bresennol:

Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cadeirydd)
Sue Leonard	Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-gadeirydd)
Andy Jones	Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau
Kevin Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau'r De-orllewin, Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Alison Phillips	Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaethau, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dr Steven Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro
Iwan Thomas	Prif Weithredwr, PLANED
Cris Tomos	Yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros yr Amgylchedd a'r Iaith Gymraeg
Martyn Palfreman	Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Alison Perry	Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Uwch-arolygydd Ross Evans	Heddlu Dyfed Powys
Natalie Pearson	Pennaeth Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru
Elwyn Williams	Is-gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Diane Lockley	Cadeirydd Pwyllgor Ardal Leol Un Llais Cymru
Dave Evans	Dirprwy Bennaeth Coleg Sir Benfro

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Cymorth Partneriaethau a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
------------	---

Hefyd yn bresennol

Amy Richmond-Jones	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
--------------------	--

Ymddiheuriadau

Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Barry Walters	Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Judith Hardisty	Cadeirydd Interim, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ros Jervis Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
Jonathan Feild Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaethau, Yr Adran Gwaith a
Phensiynau

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y sawl sydd wedi'u rhestru uchod.

Nododd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu, yn unol â chytundeb blaenorol y Bwrdd. Byddai hyn bellach yn digwydd unwaith y flwyddyn, pan fyddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno. Hefyd, fe wnaeth groesawu AJ i'w gyfarfod cyntaf a'i longyfarch ar gael ei benodi'n Brif Weithredwr Porthladd Aberdaugleddau; hefyd, fe groesawodd y Cynghorydd Emyr Williams, Is-gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w gyfarfod cyntaf.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2019 yn gofnod cywir.

3. Log Camau Gweithredu

O ran Pwynt 4, nododd NE fod nifer o eitemau wedi'u trafod mewn cyfarfodydd blaenorol i'w cynnwys mewn rhaglen waith ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac, yn ogystal, oherwydd bod 12 mis cyntaf cyflwyno'r Cynllun wedi'u cwblhau, byddai'n amserol nawr edrych ar y rhannau hynny o'r Cynllun a oedd heb gael eu hystyried yn fanwl eto. Awgrymodd y dylai'r BGC benderfynu p'un a hoffent gynnal cyfarfod anffurfiol i gynllunio'r rhaglen waith, efallai cyn y cyfarfod nesaf neu fel rhan o'r cyfarfod hwnnw.

Trafododd partneriaid yr awgrym hwn yn fyr a chytunwyd ymestyn y cyfarfod nesaf i gynnwys sesiwn weithdy ar gynllunio'r rhaglen waith. Byddai NE/LR yn mynd ati i'w drefnu. Roedd yr holl gamau gweithredu eraill ar y log wedi'u cwblhau.

NE/LR

4. Adroddiad Blynyddol Drafft 2018-19

Cyflwynodd NE fersiwn drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a dywedodd fod yr adroddiad wedi symud i ffwrdd o fformat safonol adroddiad i fformat a oedd, gobeithio, yn ei wneud yn fwy dynamig, rhyngweithiol a diddorol i bobl ei ddarllen. Nododd fod yr adroddiad yn un lefel uchel a dywedodd ei fod yn ddiolchgar i bob un o arweinwyr y Ffrydiau Gwaith am gyfrannu at eu hadrannau perthnasol. Yna, aeth NE â phartneriaid drwy bob adran o'r adroddiad.

Recriwtio a Chyflogaeth - nododd NE lwyddiant y prosiect hyd yn hyn. Hefyd, amlygodd DE effeithiau cadarnhaol y prosiect ac, wrth i bartneriaid y BGC gynnig lleoliadau profiad gwaith hefyd ac i fusnesau bach a chanolig lleol barhau i ddarparu lleoliadau yn ogystal, y nod oedd darparu 1600 o leoliadau i bobl ifanc o fewn y Sir bob blwyddyn. Roedd JF wedi trefnu lansio'r prosiect yn swyddogol ym mis Medi. Nododd NE fod y prosiect wedi

dwyn sylw cydweithwyr Cenedlaethol fel enghraifft o arfer gorau a bod y Gweinidog Cymorth Teuluol, Tai a Chynnal Plant wedi dangos diddordeb yn y gwaith ac y byddai'n cael ei wahodd i'r lansiad. Dywedodd AB ei bod hi'n bwysig nodi mai cyflogaeth oedd un o'r materion a oedd o bryder i aelodau'r Cynulliad leuenctid ac esboniodd DE fod y Coleg yn gweithio'n agos gyda nhw.

Nododd KJ y byddai'n hoffi edrych ar wneud lleoliadau profiad gwaith yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir er mwyn llenwi 'lleoedd gwag' mewn sefydliadau sector cyhoeddus ac esboniodd DE am berthynas Coleg Sir Benfro â Hywel Dda, a oedd yn gweithredu ar drywydd tebyg trwy amlygu meysydd lle'r oedd prinder staff. Hefyd, amlinellodd NP raglen bresennol gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig a chynnig lleoliadau profiad gwaith iddynt. Hefyd, nododd SL fod cyllid wedi'i ddarparu er mwyn gweithio gyda chymunedau Hubberston a Hakin, lle'r oedd angen wedi'i amlygu am fwy o waith ar gyfleoedd gwaith a hyfforddiant, ac i annog y bobl sy'n byw yn yr ardal i fanteisio'n fwy ar y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Y newid yn yr hinsawdd – dywedodd AW fod lefel y cymorth y mae'r is-grŵp wedi'i chael wedi bod yn gadarnhaol ac y byddai'r asesiad risg newid yn yr hinsawdd, yr oedd hi wedi adrodd arno yng nghyfarfod diwethaf y BGC, yn barod cyn hir i bartneriaid ei ystyried. Yna, byddai'r wybodaeth yn yr asesiad risg yn cael ei defnyddio i ymgysylltu â chymunedau. Nododd fod gan waith yr is-grŵp gysylltiad agos â'r prosiect Carbon Niwtral hefyd.

Gwneud Pethau'n Wahanol – amlinellodd NE y gwaith ar sefydlu hybiau cymunedol a oedd yn cael ei arwain yn bresennol gan gydweithwyr lechyd. Hefyd, nododd nad oedd elfennau eraill yn y Cynllun yn gysylltiedig â'r Ffrwd Waith hon wedi'u harchwilio eto ac y byddai angen i'r BGC drafod y rhain yn fanylach rywbryd. Nododd AB fod gwaith i ymgysylltu â chymunedau wedi bod yn mynd rhagddo am y flwyddyn ddiwethaf a'i fod wedi helpu i gysylltu cymunedau a phartneriaid ehangach â rhaglen drawsnewid y Bwrdd lechyd a'r strategaeth 20 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a sut olwg allai fod ar wasanaethau yn y dyfodol.

Prosiectau Cymunedol – daeth hyn â thair Ffrwd Waith ynghyd, sef Cyfranogiad y Gymuned, Deall ein Cymunedau ac Ymwneud Ystyrlon gan Gymunedau. Ar hyn o bryd, roedd PLANED yn arwain rhywfaint o waith rhagorol gyda'r Prosiect Llesiant a Gwydnwch Cymunedol, a oedd wedi derbyn cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru. Nododd IT mai rhan allweddol o'r prosiect oedd y cydweithredu rhwng PLANED, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a phartneriaid eraill, gyda chymunedau unigol. I ddechrau, roedd y Prosiect Llesiant a Gwydnwch Cymunedol yn canolbwyntio ar 12 cymuned; fodd bynnag, y gobaith oedd ei gyflwyno ym mhob cymuned i roi mwy o gynaliadwyedd iddynt wrth edrych tua'r dyfodol. Nododd SL fod llawer o waith yn mynd yn ei flaen, ond roedd cymaint mwy y gellid ei wneud ac roedd hi'n gobeithio y byddai rhai o'r prosiectau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gael cyllid o'r gronfa Trawsnewid Rhanbarthol yn llwyddiannus, er mwyn gallu ehangu'r gwaith gyda chymunedau.

Cynnwys a gwrando ar bobl ifanc – nododd NE fod yr adran hon wedi'i hysgrifennu o safbwynt Jade a Bethany Roberts a'u gwaith nhw fel rhan o'r Cynulliad leuenctid ar lefel leol a chenedlaethol. Hefyd, roedd yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth a roddont pan roeddent wedi rhoi cyflwyniad i'r BGC ym mis Chwefror 2019. Roedd ail ran yr adran yn amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd pan gyfarfu TJ â'r Cynulliad leuenctid ym mis Mawrth eleni.

Balchder yn Sir Benfro – Nodwyd bod hyn yn ffordd flaengar o ymgysylltu â chymunedau a'u cefnogi, ac yn ffordd o gydnabod y grwpiau cymunedol niferus yn Sir Benfro sy'n ymgymryd â rhywfaint o waith campus yn eu hardaloedd lleol. Nododd SL fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro yn gweinyddu'r rhaglen ar ran y BGC a bod portffolio erbyn hyn o astudiaethau achos ac enghreifftiau o bethau mae grwpiau lleol yn eu gwneud yn eu cymunedau. Holodd sut y gallai'r BGC wneud mwy i hyrwyddo'r fenter er mwyn annog cymunedau ychwanegol i gymryd rhan. Dywedodd fod enillwyr, yn ei phrofiad hi, bob amser yn ddiolchgar iawn am y wobwr o £200 a'u bod yn arddangos eu tystysgrifau yn falch.

Gweithio'n Rhanbarthol – Dyma faes arall y gall y BGC fod yn falch ohono o safbwynt ei gyfraniad a'i arweinyddiaeth. Nodwyd bod BGC Sir Benfro wedi cynnal y digwyddiad rhanbarthol cyntaf yn 2018. Ers hynny, bu datblygiadau pellach gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chynhaliwyd ail ddiwyddiad ar y cyd gyda BGCau o Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys, a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ym mis Mehefin, yn arddangos gwaith rhanbarthol ychwanegol y gellir ei ddatblygu.

Nododd NE fod yr adran sy'n bwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf ac sy'n bwrw golwg ar y flwyddyn i ddod wedi'i rhoi at ei gilydd gan SL. O edrych tua'r dyfodol, nododd SL fod y BGC wedi gwneud dechrau da ar weithredu'r Cynllun ond bod angen iddo ymgysylltu'n well, annog pobl i chwarae mwy o ran a hyrwyddo gwaith y BGC yn fwy effeithiol. Dywedodd y byddai'n hoffi pe bai'r BGC yn bwrw golwg ar gludiant, sef maes lle y bu problemau ers blynyddoedd lawer, a nodwyd bod hwn yn faes y gellid edrych arno yn y gweithdy ym mis Medi.

Y camau nesaf – nododd NE y byddai angen cyhoeddi'r adroddiad tua chanol mis Gorffennaf, felly dylid anfon unrhyw sylwadau ar yr adroddiad drafft at NE erbyn 5 Gorffennaf. Roedd angen trafod sut byddai'r adroddiad yn cael ei hyrwyddo ar wefannau partneriaid. Dywedodd NE y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar y we, felly na fyddai'n cael ei argraffu. Nododd SPJ fod yna drefniadau newydd ar gyfer craffu ar y BGC trwy Banel Partneriaethau ac awgrymodd y dylai'r Bwrdd ystyried datblygu adnodd gwerthuso/mesur ar gyfer y dyfodol, i ddangos y gwahaniaeth mae'r cynllun wedi'i wneud. Dywedodd TJ y byddai hyn yn rhywbeth i'w godi'r flwyddyn nesaf neu'r flwyddyn ganlynol, ar ôl i'r prosiectau a'r Ffrydiau Gwaith wreiddio'n fwy. Gofynnodd KJ p'un a fyddai'n bosibl cynhyrchu'r adroddiad mewn fformat hawdd ei ddarllen. Dywedodd NE y byddai'n ymchwilio i gynhyrchu fersiwn mewn fformat hawdd ei ddarllen. Nododd SL y byddai Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a Barod yn lansio gwasanaeth i gynhyrchu dogfennau mewn fformat hawdd eu darllen, er y byddai cost am hyn.

Nododd partneriaid fod Adroddiad Blynyddol cyntaf y BGC yn adroddiad difyr. Awgrymwyd y dylid argraffu nifer bach o gopiau fel y gellid gosod copïau caled mewn cymunedau, er y byddai cost i hyn. Awgrymwyd presenoldeb posibl yn Sioe'r Sir ym mis Awst hefyd, ac awgrymodd TJ ddatganiad i'r wasg neu bresenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol a gynhelir gan PLANED, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro neu Gynghorau Cymuned i hyrwyddo'r Adroddiad. Nododd IT y byddai cynhadledd flynyddol PLANED yn cael ei chynnal ym mis Awst a'i fod yn fwy na bodlon hyrwyddo'r adroddiad yn y digwyddiad hwn. Dywedodd APe ei bod hi'n ymwybodol o feddalwedd sy'n gallu tynnu gwybodaeth o benawdau i fformat ffeithlun a fyddai wedyn yn gallu cael ei argraffu ar ffurf un dudalen i dynnu sylw at yr adroddiad. Byddai'n rhoi'r ddolen i'r feddalwedd i NE.

PAWB

NE

APe

5. Ymateb Cynulliad Ieuencid Sir Benfro i'r cyfarfod â'r Cadeirydd

Amlinellodd TJ gefndir y cyfarfod, gyda'r Cynulliad Ieuencid o ganlyniad yn cynhyrchu cyfres o sylwadau ac awgrymiadau'n cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y Cynllun. Yng ngoleuni hyn, roedd o'r farn y byddai'n ddoeth gwahodd cynrychiolydd o'r Cynulliad Ieuencid i sesiwn y gweithdy ym mis Medi. Hefyd, awgrymodd AW y dylai Cadeiryddion yr is-grwpiau amrywiol ymateb i awgrymiadau'r Cynulliad Ieuencid yn unigol ac ymwneud yn uniongyrchol â nhw.

NE

Cytunodd partneriaid y byddai cynnwys y Cynulliad Ieuencid yn y gweithdy yn syniad da. Ar ôl siarad â Swyddfa Hawliau Pobl Ifanc yn yr Awdurdod Lleol, dywedodd NE fod gwerth go iawn mewn cynnwys pobl ifanc yng ngwaith yr is-grwpiau. Dywedodd TJ mai cyfrifoldeb arweinwyr prosiectau fyddai rhoi ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r Cynulliad Ieuencid, ac y dylid rhannu ymatebion gyda holl bartneriaid y BGC hefyd.

Pob
arweinydd
prosiect

6. Cyflogwyr Ystyriol o Faethu

Amlinellodd Anthony Maynard, Pennaeth y Gwasanaeth Plant, a Darren Mutter, Rheolwr Gwasanaeth, Plant mewn Gofal, bwrpas menter Cyflogwyr Ystyriol o Faethu i gefnogi gofalwyr maeth yn Sir Benfro a cheisio gwneud eu rôl fel gofalwyr maeth yn haws trwy ymestyn faint o wyliau blynyddol sydd ar gael iddynt. Rhoddodd DM rywfaint o gefndir a chyd-destun, gan gynnwys manylion y broses recriwtio gofalwyr maeth yn Sir Benfro a'r gefnogaeth a gynigir ar hyn o bryd i ofalwyr maeth.

Nododd KJ fod menter debyg wedi'i chyflwyno yn y Gwasanaeth Tân ym mis Mai yn dilyn cyflwyniad cychwynnol IW i'r BGC ym mis Chwefror 2019. Dywedodd AB fod y Bwrdd Iechyd hefyd wedi ystyried sut y gallent wella'r trefniadau sydd eisoes ar waith. Gofynnodd p'un a oedd modd rhannu polisi Cyngor Sir Penfro a ph'un a oedd unrhyw ffigurau cyffredinol ar gael am nifer y gofalwyr maeth yn Sir Benfro. Dywedodd DM ei fod yn hapus i fynd yn ôl a holi p'un a oedd modd rhannu polisi Cyngor Sir Penfro. Dywedodd fod tua 70 o aelwydydd yn darparu gofal maeth yn fewnol (h.y. wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod Lleol) ond bod gofalwyr maeth annibynnol yn y Sir hefyd. Rhoddodd AW ddiweddariad ar bolisi cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ran gofalwyr maeth a nododd ei bod wedi gwneud cais i Adran Adnoddau Dynol CNC edrych ar bolisi Cyngor Sir Penfro. Gofynnodd i AM p'un a oedd yn gwybod am unrhyw BGCau eraill a oedd yn ystyried rhywbeth tebyg. Dywedodd AM y gwyddai bod cydweithwyr yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin yn edrych ar fenter debyg. Gofynnodd SL p'un a ddylai partneriaid fod yn gwahaniaethu rhwng gofalwyr maeth mewnol a gofalwyr maeth annibynnol os oeddent yn cynnig cymorth ychwanegol. Atebodd AM na fyddai am i unrhyw ofalwr maeth golli allan ar gyfle i gael cymorth ychwanegol.

DM/LR

7. Swyddfa Archwilio Cymru – Galw am Dystiolaeth ar gyfer Astudiaeth Llywodraeth Leol: Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth

Nododd SPJ dwf gweithio mewn partneriaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ond ni wnaed fawr ddim gwerthuso gweithio mewn partneriaeth a'i werth. Dywedodd fod y darn o waith sy'n cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru felly'n amserol. Roedd briff prosiect yr astudiaeth wedi'i gynnwys ym mhhecyn yr agenda ac roedd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig BGCau. Hefyd, mae'n amlinellu cefndir a phwrpas yr adolygiad, a'r hyn y mae'n gobeithio'i gyflawni. Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n bwriadu cynhyrchu pecyn cymorth hunanwerthuso o ganlyniad i'r

astudiaeth ac, o hwn, byddai gan BGCau wybodaeth am fuddion yr hyn sy'n gweithio a gwybodaeth am y pethau nad ydynt yn gweithio, ochr yn ochr ag astudiaethau cymharol o weithio mewn partneriaeth yn Lloegr a'r Alban, yn ogystal â chyfle i fynychu gweithdy arfer da yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Nododd AB fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ymateb, yn amlygu pryderon ynghylch gwneud pethau sawl gwaith a buddion gweithio'n fwy rhanbarthol. Hefyd, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi diffyg proffil ar lefel genedlaethol o waith BGCau o gymharu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dywedodd ei bod yn ymwybodol hefyd o adolygiad arall o bartneriaethau strategol a oedd yn mynd rhagddo gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda dyddiad ymateb o 5 Gorffennaf, a nododd fod yr adolygiadau o drefniadau partneriaethau yn doreithiog ar hyn o bryd.

Dywedodd MP y byddai ymateb y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adleisio rhai o sylwadau AB ac, yn benodol, manteision cydweithredu â BGCau a phartneriaid. Hefyd, nododd SL y dryswch yn nogfen Swyddfa Archwilio Cymru am rolau BGCau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a dywedodd fod y dryswch hwn i'w weld yn y cwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Dywedodd KJ fod y Gwasanaeth Tân wedi ymateb hefyd. Nododd AW nad oedd llawer o gyfeiriad at lesiant cymunedol neu amgylcheddol, ac nad oedd y briff wedi adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nac y byddai gwaith yn cymryd amser i'w ddatblygu. Dywedodd APe ei bod hi'n bwysig cynnal cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n gallu cael ei wneud yn rhanbarthol a sicrhau bod darpariaeth leol ar yr un pryd. Nododd SPJ y byddai'r adroddiad ar gael rywbryd yn yr Hydref.

8. Adborth o ddigwyddiad rhanbarthol BGC De-orllewin Cymru

Diolchodd TJ i Sir Gaerfyrddin am drefnu'r digwyddiad a gynhaliwyd ar 7 Mehefin. Nododd partneriaid fod hwn wedi bod yn ddigwyddiad defnyddiol a'i fod wedi helpu i amlygu meysydd o synergedd rhwng BGCau a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ochr yn ochr â chadw pobl yn ganolog i waith y BGC.

9. Unrhyw Fater Arall

Rhoddodd APh ddiweddariad byr ar ran JF ar y Prosiect Recriwtio a Chyflogaeth. Bydd cyfarfod nesaf y grŵp cyflawni'n cael ei gynnal ar 31 Gorffennaf, pan fydd cynrychiolwyr o'r Cynulliad leuenctid yn bresennol. Roedd JF wedi gofyn bod holl aelodau'r BGC yn sicrhau eu bod yn anfon cynrychiolwyr i fynychu a bod y bobl sy'n mynychu ar y lefel gywir (gweithredol nid strategol). Fel y trafodwyd yn gynt, bydd y Gweinidog Cymorth Teuluol, Tai a Chynnal Plant yn dod i lansiad swyddogol y Prosiect ym mis Medi.

Hefyd, nododd APh bod achos diweddar o gaethwasiaeth fodern wedi digwydd yn y Sir a gofynnodd fod partneriaid yn ystyried sefydlu is-grŵp i benderfynu ar y dull gweithredu pe byddai achosion yn y dyfodol. Awgrymodd SPJ fod hon yn eitem y gallai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ei hystyried cyn adrodd yn ôl i'r BGC; fodd bynnag, nododd RE fod ardal Dyfed Powys eisoes yn cynnal cyfarfodydd strategol rheolaidd ynghylch Caethwasiaeth Fodern, y gellid gwahodd cydweithwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau iddynt, a bod prosesau hen sefydledig ar waith. Felly, nid oedd angen dyblygu'r gwaith hwn.

Gofynnodd AW i bartneriaid p'un a hoffent gael sesiwn ar Brosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfarfod nesaf, a sut gall sefydliadau ddechrau ystyried lleihau eu hól troed carbon. Cytunwyd y byddai hyn yn digwydd yn y cyfarfod nesaf.

Nododd NE fod y Panel Partneriaethau wedi'i grybwyll eisoes a bod adolygiad o strwythurau craffu wedi'i gynnal yn ddiweddar yn y Cyngor; efallai nad oedd partneriaid yn ymwybodol o hyn. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau bellach wedi'i ddirwyn i ben yn sgil cymeradwyaeth gan y Cyngor ym mis Mai, a byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol bellach yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am graffu ar y BGC. Byddai Panel Partneriaethau'n cael ei sefydlu fel is-grŵp i'r pwyllgor hwn. Roedd hyn o hyd yn cael ei gynllunio, ond byddai'r grŵp yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr holl bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod yr hydref a byddai'r Panel yn cyfarfod cwpwl o weithiau'r flwyddyn. Atgoffodd ef y partneriaid y byddai pŵer gan y Panel i alw unrhyw aelod o'r Bwrdd gerbron i graffu ar ei gyfraniad at waith y BGC.

**NE i'w
roi ar
yr
agenda**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm.